

Nodiadau Fforwm Defnyddwyr Ogwen

13 Ebrill 2016 4.30y.h

Presennol

Iwan Jones (cadeirydd)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Alan Pritchard	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Gwyn Thomas	Blaen y Nant
Hywel Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Mark Roberts	Bethesda
Guto Roberts	Partneriaeth Cwm Idwal
Jeroen Verbeek	Hostel Ieuenctid
Carys Dafydd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Naomi Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mal Creasey	Arweinwyr Mynydd Prydeinig
Arwel Johnston	Tenant
Alison Cousins	Cyngor Cymuned Capel Curig
Jamie Holding	Outward Bound
Catrin Williams	Cyfieithydd
Howard Hughes	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau

Edward Jones; Jon Cawley; Dewi Roberts; Andy Harbach; Edwina Johnson; Dewi Davies; Rob Spencer; Al Crisp.

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd a chan fod rhai aelodau yn mynychu am y tro cyntaf – gofynnodd i bawb gyflwyno ei hunain.

2. Nodiadau'r cyfarfod diwethaf.

- a. Derbyniwyd cywirdeb y nodiadau.
- b. Materion yn codi - dywedodd Alan Pritchard (APCE) bod Helen Pye (APCE) wedi cael cyfarfod maes gyda Dewi Roberts (YG) i drafod y posibilrwydd o wella'r mynediad at Rhaeadr y Benglog. Roedd cydsynio na ddylid annog mwy o bobl i fynd i lawr i weld y rhaeadr ac felly y penderfynwyd na fyddent yn bwrw ymlaen hefo unrhyw gynlluniau i hwyluso mynediad at y rhaeadr.

3. Diweddariad ar weithgareddau diweddar yn yr ardal, Guto Roberts, Partneriaeth Cwm Idwal.

- Bydd arwydd newydd yn cael ei godi yn rhoi gwybodaeth am y Warchodfa Natur, bydd gwybodaeth am y pwysigrwydd o roi cŵn ar dennyn a gwybodaeth dymhorol yn cael ei gynnwys hefyd.
- Bydd pont dros y rhaeadr yn y cefn yn cael ei chodi yn ystod y flwyddyn - mae angen cael prisiau tendro gan gwmnïau peirianeg sifil.
- Mae tri o fugeiliaid wedi eu penodi i weithio yng Nghwm Idwal sef Hefin Hughes, Ioan Doyle a Gwyn Thomas. Byddant yn gwisgo crysau t - Bugail Cwm Idwal.
- Mae trafodaeth yn cael ei chynnal ynghylch cael arwyddion fyddai'n dweud bod cŵn yn gweithio yn y Cwm ac y gallent fod yn beryg i gŵn nad ydynt ar dennyn. Cafwyd trafodaeth ar y broblem o berchnogion yn gadael cŵn oddi ar eu tennyn. Dywedodd Arwel Johnson fod nifer y cŵn sy'n ymweld â'r Cwm wedi cynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Ychwanegodd bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn hyrwyddo Cwm Idwal fel lle i fynd a chi am dro ar eu gwefan a'u bod yn colli cyfle i bwysleisio'r pwysigrwydd o gadw ci ar dennyn. Dywedodd Guto y byddai'n gwneud ymholiadau i'r mater.
Dywedodd Mark Roberts mae eithriad oedd ci yn ymosod ar gi arall, ond pe tasai ci yn ymosod ar ei gi tywys ef y byddai'n drosedd - fel petai wedi ymosod arno ef yn bersonol.

4. Y sefyllfa gyfredol ar y safle

Yn absenoldeb Edward Jones, darllenodd y cadeirydd ei adroddiad.

- Llwyddwyd i gael contractwyr yn ôl i ddelio gyda rhai o'r diffygion ar y safle. Disgwyl ymateb pellach gan y penseiri.
- Bu newid yn y contractwyr glanhau yn dilyn proses dendro ac mae glanhawr newydd wedi dechrau ar eu gwaith.
- Wedi oedi o ddau fis oherwydd tywydd anffafriol, llwyddwyd i ail wynebu'r maes parcio cyn y Pasg. Bydd contractwyr yn ail beintio llinellau gwyn wedi gwyliau'r Pasg.
- Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd mewn trafodaethau gyda chwmni ffilmio sydd wedi gwneud cais i ddefnyddio rhan o'r maes parcio ar gyfer lleoli compound tra byddant yn ffilmio yng Ngwm Idwal rhwng y 25ain ar 29ain o Ebrill. Mae'n debyg mai o'r dydd Mawrth tan ddydd Gwener y byddant ar y safle, ond nid yw hyn wedi ei gadarnhau eto.

Ychwanegodd Guto Roberts mai Sky sy'n cynhyrchu'r ffilm - The Last of the Dragon Slayers a bydd yn cael ei dangos ar ddiwrnod Nadolig. Bydd Guto yn mynd gyda'r criw i'r Cwm, er mwyn sicrhau nad ydynt yn difrodi'r dirwedd. Dywedodd efallai na fydd yn bosibl i'r cyhoedd gael mynediad i bob ardal o'r cwm yn ystod y ffilmio.

5. Diweddariad ar ddehongli yn Ogwen - Naomi Jones

- Mae'r sefyllfa wedi gwella gyda'r peiriannau ar y wal.
- Mae'r Projector wedi cael bwlb newydd ac o ganlyniad mae'r ffilm i'w gweld yn gliriach. Efallai y bydd modd gwella'r sefyllfa ymhellach drwy ddefnyddio sgrin deledu fawr. Bydd hyn yn cael ei dreialu yn y dyfodol agos - y sgrin wedi dod ar gael oherwydd bod canolfan Gwybodaeth Dolgellau wedi cau yn ddiweddar. Os bydd hyn yn digwydd y bwriad yw tynnu'r ffilm oddi ar y drws - fel cam cyntaf - i weld os gwnaiff hyn wneud i'r adeilad edrych fel ei fod ar agor o'r tu allan. Efallai y bydd modd tynnu'r ffilm o rannau eraill wedyn.

Dyweddodd Arwel Johnson bos hyn wedi bod yn broblem ers y dechrau a bod pobl yn gweld twyllwch yn yr ystafell ac yn cymryd yn ganiataol bod y lle ar gau.

- Mae'r holiaduron adborth wedi eu casglu ac mae'r ymatebion yn amrywio'n fawr - yn ddibynnol os yw'r dehongli'n gweithio ai pheidio. Mae rhai pobl yn hapus jest i gael ystafell sych, gynnes ar gyfer cysgodi eu grwpiau.
- Cafodd y model 3D ei ddifrodi dros wyliau'r Pasg, mae wedi ei drwsio bellach – ond mae angen edrych ar y broblem tymor hir.
- Penderfynwyd fframio posterï #cwmidwal60 yn hytrach na'u rhoi ar foamex.
- Mae'r ffilm newydd wedi cael ymateb da iawn
- Byddwn yn asesu'r posibilrwydd o gynhyrchu rhagor o feinciau yn fewnol.

Gadawodd Mal Creasy y cyfarfod am 5.30.

6. Diweddariad ar Fwthyn Ogwen – Jamie Holding

Dyweddodd ei fod yn falch iawn i gael dod yn ôl i weithio i Fwthyn Ogwen - y tro yma i Outward Bound. Mae nifer o'r staff arferai weithio yn Aberdyfi bellach wedi symud i Fwthyn Ogwen. Dywedodd bod ysgolion o gyn belled ag Aberdeen staff ei bod yn braf iawn cael croesawu ysgolion Birmingham yn ôl. Dywedodd bod ganddynt bartneriaeth gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a bydd y myfyrwyr yn gwneud gwaith cadwraeth i'r Ymddiriedolaeth. Mae'n hefyd yn cynnig Gwobr John Muir a'r bwriad yw cynnig cyfleoedd i ysgolion cynradd hefyd - ond y byddai hyn yn cael ei gyfyngu gan y tymhorau.

Dyweddodd mai arbrawf oedd hyn gan y ddwy ochr i weld sut mae pethau'n gweithio – o safbwynt Outward Bound mae'r arbrawf wedi bod yn llwyddiant. Gofynnodd Guto Roberts os oedd ganddynt fwriad i weithio gydag ysgolion lleol. Atebodd Jamie Holding fod Outward Bound, fel elusen wedi derbyn arian gan Ymddiriedolaeth Esme Kirby yn benodol i weithio gydag ysgolion yng Nghymru.

7. Cynllun arfaethedig y Carneddau

Yn absenoldeb Jonathan Cawley, adroddodd Naomi Jones y byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno ddiwedd Mai, bydd y prosiect cyffrous yn canolbwyntio ar elfennau archeolegol. Y prif amcan yw codi ymwybyddiaeth ymysg y boblogaeth leol. Dywedodd y byddai modd cylchu gwybodaeth fanylach ar y cais os oedd angen.

Ymunodd Gwyn Thomas â'r cyfarfod am 5.35

8. Unrhyw fusnes arall

- Gofynnodd Arwel Johnson os oedd unrhyw newyddion ynghylch trafndiaeth gyhoeddus yn yr ardal – doedd neb yn y cyfarfod wedi clywed dim.
- Dywedodd Alison Cousins bod beiciau modur oddi ar y ffodd yn broblem ddifrifol yn Gapel Curig - atebodd Alan Pritchard fod Peter Rutherford - Swyddog Mynediad y Parc wedi bod yn siarad gyda thir feddianwyr yn yr ardal.
- Gofynnodd Gwyn Thomas os oedd unrhyw un wedi clywed mwy am y tanddearu llinellau trydan. Nid oedd gan neb yn y cyfarfod ddim i'w adrodd.
- Aeth ymlaen i ddweud bod y giât ar waelod Nant Ffrancon wedi cael ei malurio unwaith eto a bod y 'cattle grid' mewn cyflwr difrifol - gyda phwy y dylai gysylltu? Atebodd Alan Pritchard mai Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol ac nad oedd y giatiau yn cael eu cynnal ers ymadawiad Marc Balaam. Dywedodd bod y giât ar waelod y Nant wedi cael ei difrodi yn dilyn rali geir ac efallai eu bod yn disgwyl iawndal gan y cwmni cyn trwsio'r giât. Ychwanegodd ei fod wedi atgyweirio dwy giât yn y cwm ers dychwelyd i weithio yn yr ardal. **Addawodd e-bostio Robin Perkins, Cyngor Gwynedd i adrodd ar y mater.**

Dangosodd Gwyn Thomas luniau dynnodd o'r traffig ar yr A5 yn ddiweddar. Cafwyd trafodaeth ar y mater, dywedodd Jamie Holding bod y ffaith bod storfa bwthyn Ogwen bellach wedi cael ei symid i ochr arall yr A5 yn golygu bod y plât yn gorfod croesi'r ffordd brysur o leiaf unwaith y diwrnod. **Penderfynwyd hefyd bod angen danfon y lluniau ynghyd â llythyr arall yn mynegi pryderon i lolo Tegid. Cytunodd Carys Dafydd i wneud hyn.**

Dywedodd Gwyn Thomas bod angen edrych tu allan i'r bocs ynghylch y broblem ac awgrymodd y byddai llwybr pren am 150 meter yr ochr fewnol i'r wal yn sicrhau bod pobl yn gallu cerdded yn ddiogel.

Cytunodd Guto Roberts i godi'r mater Gyda Dewi Roberts er mwyn gweld os yw'n ymarferol i ystyried hyn.

- Dywedodd Gwyn Thomas y byddai'r defaid a'r ŵyn yn ôl ar y mynydd mewn pythefnos a'i fod yn pryderu am effaith y gallai'r cŵn ei gael arnynt . Atebodd Guto Roberts y byddai arwyddion cadw ci ar dennyn yn cael eu rhoi i fyny yn y dyfodol agos ac os oes arolwg o adar yn dod i'r canlyniad bod cwn yn andwyol i'r adar yna fe ellid gwahardd cŵn yn gyfan gwbl rhwng Mai a Medi.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 5.55yh.